

Cyrraedd Safonau Uwch Gyda'n Gilydd

Fframwaith ar gyfer lechyd a
Lles Anifeiliaid yng Nghymru

Fersiwn gryno i bobl ifanc



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Cyflwyniad

Mae'r ffordd y mae pobl yn gofalu am anifeiliaid yng Nghymru yn hynod bwysig.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn siŵr bod iechyd a lles anifeiliaid y gorau y gall fod.

Mae hyn yn golygu ein bod ni eisiau i'r anifeiliaid i gyd:

- gael eu hamddiffyn rhag poen, rhag dioddef, rhag anaf a rhag clefydau;
- cael y llochesi a'r lleoedd iawn i fyw;
- cael deietau iach; a
- phopeth arall sydd eu hangen arnyn nhw i gael bywydau normal iach

Mae iechyd a lles anifeiliaid yn bwysig i bawb.

Mae'r ffordd y mae pobl yn gofalu am anifeiliaid ac yn eu bridio'n gallu gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl.

Mae hyn oherwydd ei bod yn gallu atal clefydau rhag lledaenu, helpu i greu swyddi ychwanegol mewn cymunedau a gwneud y diwydiant ffermio yng Nghymru'n gryfach.

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthyh chi am y Fframwaith newydd ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid yng Nghymru.

Mae'n manylu ar ein cynlluniau i wneud yn siŵr bod iechyd a lles anifeiliaid y gorau y gall fod.


Cynllun 10 mlynedd yw hwn, a byddwn ni'n cadw llygad arno'n rheolaidd.

Pa anifeiliaid y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw?

Bydd y fframwaith yn cynnwys iechyd a lles:

- yr holl dda byw ar ffermydd, fel gwartheg a defaid;
- pob math o anifeiliaid anwes;
- anifeiliaid gweithio, fel ceffylau neu gŵn defaid;
- anifeiliaid sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, fel ceffylau; ac
- anifeiliaid sy'n rhan o ddyfr-amaeth neu ddyfr-ffermio, fel yr eog, pysgod cregyn neu eraill.

Bydd hefyd yn cynnwys bywyd gwyllt lle gallai unrhyw beth rydyn ni'n ei wneud, fel ffermio, effeithio ar eu hiechyd a'u lles neu lle mae yna berygl o glefyd.



Ein Hymrwymiad!

Mae'n hynod bwysig bod â'r holl gamau yn eu lle i wneud yn siŵr bod iechyd a lles anifeiliaid yn gwella ledled Cymru, ond ni allwn ni wneud hyn ar ein pennau ein hunain.

Mae bod â'r fframwaith newydd yma ar waith yn golygu bod gan Gymru'r offer i:

- helpu pawb i gydweithio'n well;
- helpu pawb i ddeall eu rhan a'u cyfrifoldeb i wella iechyd a lles anifeiliaid;
- ein helpu ni i gamu i mewn a gorfodi gwelliannau os ydyn ni o'r farn nad yw rhywun yn gofalu am anifeiliaid fel y dylai ofalu amdanyn nhw;
- helpu i atal clefyd rhag lledaenu;
- ein helpu ni i ganolbwyntio ar y canlyniadau rydyn ni'n anelu amdanyn nhw ar ddiwedd y dydd ar gyfer bywydau anifeiliaid; ac i
- wneud yn siŵr bod pob gwasanaeth a pholisi'r llywodraeth yn cydweithio i wella iechyd a lles anifeiliaid.

Ein gweledigaeth

Mae gan y weledigaeth yn y fframwaith newydd yma bum nod gwahanol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid ledled Cymru.

1. Mae gan Gymru anifeiliaid cynhyrchiol iach.
2. Mae gan anifeiliaid yng Nghymru ansawdd bywyd da.
3. Mae gan bobl ffydd a hyder yn y ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu ac yn y modd o ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Effeithiau uniongyrchol yw ein henw ar y rhain gan mai dyma brif ganlyniadau a nodau'r fframwaith newydd yma.

4. Mae gan Gymru fwy o swyddi, busnesau ac economi ffyniannus sy'n tyfu.
5. Mae gan Gymru amgylchedd o ansawdd da.

Effeithiau anuniongyrchol yw ein henw ar y rhain gan nad dyma brif nodau'r fframwaith ond rydyn ni o'r farn y byddan nhw'n digwydd.



Ein Hegwyddorion

I'n helpu ni i gyrraedd ein nodau ar gyfer y weledigaeth yma, mae gennym ni bum egwyddor allweddol y byddwn ni'n eu dilyn wrth ein gwaith.

1. Byddwn ni'n rhoi gwybod i bawb am fuddion iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'n hynod bwysig cael safonau uchel a gofalu am anifeiliaid yn dda, a thrwy wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am y buddion fe allwn ni helpu i atal clefyd a gwella bywydau anifeiliaid.

2. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am, ac yn deall y rhan y maen nhw'n ei chwarae a'u cyfrifoldeb nhw am iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'r fframwaith yma'n rhoi'r un camau i bawb eu dilyn i gyrraedd ein nodau. Mae hyn yn cynnwys:

- perchnogion neu geidwaid anifeiliaid;
- sefydliadau'r diwydiant sy'n cefnogi perchnogion anifeiliaid;
- milfeddygon;
- adrannau'r llywodraeth; ac
- eraill.

3. Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag adrannau'r llywodraeth, busnesau a'r diwydiant ffermio fel bod ein nodau i gyd yr un fath.



Mae cael pawb i gydweithio'n rhan allweddol o wneud yn siŵr ein bod ni'n cyrraedd ein nodau.

4. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yna ddealltwriaeth eglurach o gostau a buddion iechyd a lles anifeiliaid.

Mae camu i mewn yn gynnwys yn arbed arian ac amser yn y dyfodol.

5. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod safonau'n cael eu cyrraedd a'u gorfodi yn y ffordd orau i gyrraedd ein nodau.

Nid ydyn ni eisiau llawer iawn mwy o waith papur ond rydyn ni eisiau i hyn weithio a gwneud gwahaniaeth.




Sut bydd hyn yn gweithio

Canolbwyntio ar ganlyniadau

Mae yna lawer o wahanol ffyrdd y gallwn ni ddangos bod y fframwaith newydd yma'n gwneud yr hyn rydyn ni eisiau iddo ei wneud.

Bydd canolbwyntio ar y canlyniadau'n dangos i ni sut mae'r camau rydyn ni'n eu cymryd a'r adnoddau rydyn ni'n eu defnyddio'n gwneud gwahaniaeth.



Ei sefydlu a gweld a yw'n gweithio

I'n helpu ni i wneud yn siŵr bod y fframwaith yn gweithio, mae gennym ni wahanol grwpiau a thimau o bobl i helpu.

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

Mae'r grŵp yma'n cynnwys gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr ym maes iechyd a lles anifeiliaid. Byddan nhw'n:

- helpu pawb i gydweithio'n well;
- edrych ar unrhyw faterion neu bryderon a allai wneud gwahaniaeth i iechyd anifeiliaid;
- lleisio'u barn ac yn herio polisiau newydd i wneud yn siŵr eu bod nhw'n ein helpu ni i gyrraedd ein nodau;
- gwneud yn siŵr bod y fframwaith yn cael ei fonitro a bod rhywun yn edrych arno'n rheolaidd fel bod modd gwneud newidiadau os oes angen hynny; ac yn
- cadw cysylltiadau rhwng sefydliadau'r diwydiant a grwpiau sy'n canolbwyntio ar faterion ehangach fel addysg, iechyd, tlodi a materion gwledig eraill.

Tîm Monitro Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru

Bydd y tîm yma'n gweithio o Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol. Bydd yn:

- cefnogi Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru;
- gwneud yn siŵr bod y fframwaith yma'n cael ei roi ar waith a'i fod yn cael ei ddiweddarau a'i ddiwygio yn ôl y galw iddo weithio'n iawn;
- casglu'r holl wybodaeth a data sydd eu hangen fel ein bod ni'n gwybod a ydyn ni'n cyrraedd ein nodau; ac yn
- trefnu'r holl gynlluniau ar gyfer y fframwaith, gan gynnwys gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am y fframwaith, am ei wefan ac am gyngor a gwybodaeth arall.

Y gronfa ddata newydd

Bydd hon yn helpu pawb i gydweithio, rhannu gwybodaeth a gwybod beth sy'n digwydd. Bydd gennym ni un lle y bydd pawb yn gallu ei ddefnyddio i fynegi eu diddordeb yn y fframwaith, a daw'r rhestr yma'n gronfa ddata ar gyfer rhannu gwybodaeth a'r newyddion diweddaraf.

Cynllunio ac adrodd

Eleni, byddwn ni'n cyhoeddi adroddiad ar:

- sut mae'r fframwaith yn gweithio;
- pa feysydd y mae angen i ni wneud mwy o waith arnyn nhw;
- y camau y byddwn ni'n eu cymryd; a
- phwy sy'n gyfrifol am wneud beth.

Sut gallwch chi chwarae'ch rhan!

Mae yna ddigonedd y ffyrdd y gallwch chi chwarae'ch rhan.

Gallwch chi ymuno â'r rhwydwaith fel eich bod chi'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf trwy gofrestru'ch enw a'ch cyfeiriad yn y gronfa ddata newydd.

Gallwch chi hefyd weld mwy o wybodaeth ar ein gwefan:


www.cymru.gov.uk/ahwfframwaith

Neu gallwn ni anfon y ffurflen gofrestru atoch chi os byddwch chi'n cysylltu â ni yn:

WAHFG@cymru.gsi.gov.uk

Cyfeiriad:

Tim Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
Adeiladau'r Llywodraeth
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



dilynwch ni ar twitter @CVOcymru

